

### Project Overview

The A4119 is a strategic transport corridor linking Rhondda Fawr with Llantrisant, Talbot Green and on to the M4 at junction 34. The route is currently a dual carriageway from the M4 in the south, up to the South Wales Fire & Rescue Service HQ Roundabout, known locally as Ynysmaerdy. From this point north, it is a single carriageway road which suffers from queuing traffic at peak periods. The new scheme will provide a 1.5km long, 2-way, dual carriageway along the A4119 Coed Ely between the South Wales Fire Service HQ Roundabout and Coed Ely Roundabout, which will replace the existing 2-way single carriageway, thus increasing capacity of road space and reducing congestion. A 3-metre-wide shared community route and active travel route will follow the A4119 Coed Ely along the west of the carriageway connecting the Llantrisant Business Park roundabout to the existing cycle path which comes out at the Coed Ely Roundabout, with an active travel bridge connecting either side.

# Coed Ely Dualling Project

### Project Progress

Following on from our previous communication, works have been progressing well and are on schedule. We have been building up the construction layers of the southbound carriageway in preparation for surfacing. Two multipurpose watercourse and wildlife culverts under the southbound carriageway are complete, along with construction of the retaining walls and completion of the drainage features along this section. The new northbound carriageway is complete to surface course from the Fire & Rescue HQ roundabout to the entrance to the Yard Café and we are currently installing the new street lighting around the roundabout. North of the Yard Café, we are currently undertaking piling works for the retaining wall installation at the DCWW Sewage Works. Works are ongoing south of Coed Ely roundabout to construct the attenuation pond and wetland area.

### Upcoming Works

Looking forward we are working toward completing the surfacing to binder course of the southbound carriageway in preparation for the switch of traffic from the old carriageway to the new - more details of the switch and traffic management changes will be provided closer to the time. Following the switch, we will be focusing on removing the existing single carriageway and starting the construction of the new northbound carriageway, drainage and culverts in its place.

### Community – A More Equal Wales

Griffiths are proud to have assisted our colleagues at Transport for Wales with the local Valley Veterans initiative, providing materials and resources to assist in the creation of a sensory garden near the Ton & Gelli Community Centre, Pentre.

Griffiths have also been continuing our engagement with local schools, attending several Careers Days at the Colleg Y Cymoedd Aberdare, Rondda and Nantgarw campuses.

If you have a community initiative or education event you think we may be able to assist with, please don't hesitate to get in touch.





**Valley Veterans, Ton & Gelli**







**Your Public Liaison Officer for this project is Sam Pogson of Griffiths.**

e: A4119CoedEly@alungriffiths.co.uk

t: **03301 071484***

*** Calls to this number are charged at national call rates and included in inclusive minute plans from landlines and mobiles**

Calls are not monitored out of normal work hours. A voicemail facility is available.

For further information, or to see the site team, please visit:

**community.griffiths.co.uk**

**Working Hours**

| **Monday to Friday** | **Saturday** |
|---|---|
| 7am to 5pm | 7am to 4pm |

(These hours are subject to change)



Female Grey Wagtail (*Motacilla Cinerea*)

Golden-ringed Dragonfly (Cordulegaster Boltonii)





Common Lizard (Zootoca vivipara)

## Environment – A More Resilient Wales

The surrounding areas of the A4119 Coed Ely Dualling project support a wide variety of species. During the vegetation clearance, many ecologically important species have been identified, such as lizards, frogs, and toads. There is also a Dormouse European Protected Species Licence in place and additional mitigation for bats. To ensure the safe removal of these species from the site, ecologists perform pre-works surveys of the areas and provide watching briefs for vegetation removal. Areas found to be ecologically significant are carefully dismantled and the animals are safely collected and removed to retained habitats surrounding the scheme. Ecological enhancements to the surrounding areas such as tree planting provide valuable new habitats that promote the species' longevity and population in the local area. Enhancements to the road scheme also include mammal underpasses. These allow for species such as otters, badgers, foxes, and dormice to safely commute between either side of the road and provide important corridors allowing for a wider dispersal of the habitat for a wide variety of insects. To ensure no breeding birds were impacted by the scheme, all suitable habitat was removed prior to the breeding season. This ensured that no nests were affected by the work being carried out. Dormouse nest boxes placed in the surrounding woodland provide a safe location for breeding dormice, they also allow for the species to be effectively surveyed which will help manage the species in the future. Bat boxes are also placed in the surrounding habitat to mitigate the loss of habitat in vegetation removed for the road.

We would be pleased to hear your comments. You can get in touch via our website **community.griffiths.co.uk** or by contacting our Public Liaison Officer Sam Pogson via **A4119CoedEly@alungriffiths.co.uk** or **03301 071484***

*Calls to this number are charged at national call rates and included in inclusive minute plans from landlines and mobiles

GRIFFITHS



### Trosolwg o'r Prosiect

Mae'r A4119 yn goridor trafnidiaeth strategol sy'n cysylltu Rhondda Fawr a Llantrisant, Tonysguboriau ac i'r M4 ar gyffordd 34. Mae'r lôn yn ffordd ddeuol ar hyn o bryd o'r M4 yn y de, i fyny at Gylchfan Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, a elwir yn lleol yn Ynysmaerdy. O'r pwynt hwn i'r gogledd, mae'n ffordd sengl sy'n dioddef o giwiau traffig ar adegau prysur. Bydd y cynllun newydd yn darparu ffordd ddeuol 1.5km, 2 ffordd, ar hyd A4119 Coedelái rhwng Cylchfan Pencadlys Gwasanaeth Tân De Cymru a Chylchfan Coedelái a bydd yn disodli'r ffordd sengl 2 ffordd bresennol. Y nod yw sicrhau bod mwy o le ar y ffordd a lleihau tagfeydd. Bydd llwybr cymunedol a rennir, 3 medr o led, a llwybr teithio llesol yn dilyn A4119 Coedelái ar hyd gorllewin y ffordd ddeuol, yn cysylltu cylchfan Parc Busnes Llantrisant a'r llwybr beicio presennol sy'n dod allan ar gylchfan Coedelái, gyda phont teithio llesol yn cysylltu'r naill ochr.

# Cynllun Deuoli Coedelái

### Cynnydd y Prosiect

Yn dilyn ein cyfathrebiad blaenorol, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo'n dda, ac rydym ar amser. Rydym wedi bod yn adeiladu haenau adeiladu'r briffordd tua'r de er mwyn paratoi ar gyfer y gwaith arwynebu. Mae dwy ddyfrffordd amlbwrpas a cheuffosydd bywyd gwyllt wedi'u cwblhau o dan y briffordd tua'r de, ynghyd â'r gwaith o adeiladu'r waliau cynnal a chwblhau'r nodweddion draenio ar hyd yr adran hon. Mae'r briffordd newydd tua'r gogledd wedi'i chwblhau i wynebu cwrs o gylchfan y Pencadlys Tân ac Achub i fynedfa Caffi'r Iard, ac ar hyn o bryd, rydym yn gosod y goleuadau stryd newydd o amgylch y gylchfan. I'r gogledd o Gaffi'r Iard, rydym yn ymgymryd â gwaith peilio ar gyfer gosod y wal gynnal wrth Waith Trin Carthion Dŵr Cymru. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar gylchfan Coedelái i adeiladu'r pwll arafu ac ardal wlypdir.

### Gwaith ar y Gweill

Wrth edrych i'r dyfodol, rydym yn gweithio tuag at gwblhau arwyneb cwrs rhwymo'r briffordd tua'r de i baratoi ar gyfer newid traffig o'r hen briffordd i'r un newydd - darperir mwy o fanylion am y newid a'r newidiadau rheoli traffig yn agosach at yr amser. Ar ôl newid, byddwn yn canolbwyntio ar gael gwared ar y briffordd sengl bresennol a dechrau ar y gwaith o adeiladu'r briffordd newydd tua'r gogledd yn ei lle, a'r draeniau a'r cwlferi.

### Cymuned – Cymru sy'n Fwy Cyfartal

Mae Griffiths yn falch o fod wedi cynorthwyo ein cydweithwyr yn Trafnidiaeth Cymru gyda'r fenter Valley Veterans lleol, yn cynnig deunyddiau ac adnoddau i gynorthwyo â'r gwaith o greu gardd synhwyraidd ger Canolfan Gymunedol Ton a Gelli, Pentre.

Mae Griffiths hefyd wedi bod yn parhau â'n gwaith ymgysylltu gydag ysgolion lleol, mynychu sawl Diwrnod Gyrfaoedd ar gampysau Nantgarw, Rhondda ac Aberdâr Coleg y Cymoedd.

Os oes gennych chi fenter gymunedol neu ddigwyddiad addysgol y gallwn ni roi cymorth ar eu cyfer, cysylltwch â ni.





**Valley Veterans, Ton a Gelli**












**Eich Swyddog Cysylltu â'r Cyhoedd ar gyfer y prosiect hwn yw Sam Pogson o Griffiths.**

e: A4119CoedEly@alungriffiths.co.uk

ff: **03301 071484***


***Codir tâl am alwadau i'r rhif hwn ar gyfradd galwadau cenedlaethol a chânt eu cynnwys mewn cynlluniau munudau o linellau tir a ffonau symudol.**

Nid yw galwadau'n cael eu monitro y tu allan i oriau gwaith arferol. Mae cyfleuster neges llais ar gael.

Am ragor o wybodaeth, neu i weld tîm y safle, ewch i:

**community.griffiths.co.uk**

**Oriau Gwaith**

| Llun i Gwener | Dydd Sadwrn |
|---|---|
| 7am i 5pm | 7am i 4pm |

(Gall yr oriau hyn newid)



Siglen Lwyd Fenywaidd (*Motacilla Cinerea*)

Gwas Neidr Uurdorchog (Cordulegaster Boltonii)





Madfall (Zootoca vivipara)

**Amgylchedd – Cymru Fwy Gwydn**

Mae ardaloedd cyfagos prosiect Deuoli A4119 Coedelái yn cynnal amrywiaeth eang o rywogaethau. Yn ystod y gwaith o glirio llystyfiant, mae nifer o rywogaethau ecolegol bwysig wedi'u nodi, fel madfallod, brogaod a llyffantod. Mae Trwydded Rhywogaethau Gwarchodedig Ewropeaidd Pathew hefyd ar waith, a mesurau lliniaru ychwanegol ar gyfer ystlumod. Er mwyn sicrhau bod y rhywogaethau hyn yn cael eu symud o'r safle'n ddiogel, mae ecolegwyr yn arolygu'r ardaloedd cyn y gwaith ac yn arolygu'r gwaith o dynnu unrhyw lystyfiant. Mae ardaloedd y canfyddir eu bod yn ecolegol arwyddocaol yn cael eu datgymalu'n ofalus ac mae'r anifeiliaid yn cael eu casglu a'u symud yn ddiogel i gynefinoedd sy'n bodoli o amgylch y cynllun. Mae gwelliannau ecolegol i'r ardaloedd cyfagos, fel plannu coed, yn darparu cynefinoedd newydd gwerthfawr sy'n hyrwyddo hirhoedledd a phoblogaeth y rhywogaeth yn yr ardal leol. Mae gwelliannau i'r cynllun ffordd hefyd yn cynnwys tanffyrdd i famaliaid. Mae'r rhain yn galluogi i rywogaethau fel dyfrgwn, moch daear, llwynogod, a phathewod deithio'n ddiogel rhwng naill ochr i'r ffordd a'r llall, ac yn cyning coridorau pwysig sy'n galluogi gwasgariad ehangach o gynefinoedd ar gyfer amrywiaeth eang o bryfetach. Er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw adar a oedd yn bridio'n cael eu heffeithio gan y cynllun, cafodd pob cynefin addas ei symud cyn y tymor bridio. Roedd hyn yn sicrhau nad oedd unrhyw nythod wedi'u heffeithio gan y gwaith. Mae blychau nythu pathewod, sydd wedi'u lleoli yn y coetir cyfagos yn darparu lleoliad diogel ar gyfer pathewod sy'n bridio, maent hefyd yn caniatáu i'r rhywogaeth gael eu harchwilio'n effeithiol a fydd yn helpu i reoli'r rhywogaethau yn y dyfodol. Mae blychau ystlumod hefyd yn cael eu gosod yn y cynefin cyfagos i liniaru'r effaith o golli cynefinoedd mewn llystyfiant sy'n cael ei dynnu ar gyfer y ffordd.

Byddem wrth ein bodd yn clywed eich sylwadau. Gallwch gysylltu â ni drwy ein gwefan **community.griffiths.co.uk** neu drwy gysylltu â'n Swyddog Cysylltu â'r Cyhoedd, Sam Pogson, drwy **A4119CoedEly@alungriffiths.co.uk** neu **03301 071484***

*Codir tâl ar alwadau i'r rhif hwn ar gyfraddau galw cenedlaethol a'u cynnwys mewn cynlluniau munudau cynhwysol o linellau tŷ a ffonau symudol